Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth Ardrethi (Busnes) Annomestig ar gyfer Ynni Dŵr

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN: 978-1-78903-379-3

## Cyflwyniad

Mae'r ffurflen gais a'r canllawiau hyn ar gyfer perchnogion prosiectau ynni dŵr sy'n dymuno gwneud cais am gymorth tuag at eu rhwymedigaethau ardrethi (busnes) annomestig. Gall berchnogion hefyd wneud cais am gymorth ôl-weithredol ar gyfer eu rhwymedigaethau ar gyfer 2017-18.

Nod y cynllun grant yw rhoi cymorth tuag at eu rhwymedigaethau ardrethi annomestig i brosiectau ynni dŵr cymwys. Ni fyddai gwneud cais i'r cynllun grant hwn yn dileu'r atebolrwydd i dalu rhwymedigaeth ardrethi annomestig i'r Awdurdod Lleol.

## Amserlen

Dyma alwad agored ar gyfer ceisiadau, ar gael o'r 01 Ebrill 2018 tan 31 Gorffennaf 2018.

## Y Cyllid sydd ar Gael

Bydd y cynllun grant yn cefnogi prosiectau ynni dŵr sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Mae'r cyllid yn amodol ar derfynau Cymorth Gwladwriaethol.

Mae dwy elfen i'r cynllun:

- Cymorth 100% i brosiectau sydd dan berchnogaeth gymunedol.
- Ar gyfer cynlluniau nad yw'r gymuned yn berchen arnynt, bydd uchafswm i'r cynnydd mewn rhwymedigaeth o 10%, neu £1,000 ar gyfer prosiectau oedd heb unrhyw rwymedigaethau o dan ailbrisiad 2010.

Bydd lefel y cyllid a ddaeth i law yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio rhwymedigaeth net y prosiect. Y rhwymedigaeth net yw'r swm sy'n cael ei dalu i'r Awdurdod Lleol wedi i'r Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi Trosiannol, Rhyddhad Gorfodol a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn gael ei ddidynnu.

Gweler atodiad B am enghreifftiau o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo.

## Meini prawf

Derbynnir ceisiadau gan unrhyw brosiect ynni dŵr yng Nghymru gyda gwerth ardrethol llai na £50,000. Noder y canlynol:

- Bydd angen i brosiectau sy'n cael eu comisiynu cyn 1 Ebrill 2017 fod ar y gofrestr ardrethi o'r 1 Ebrill 2017.
- Bydd prosiectau sy'n cael eu comisiynu wedi'r 1 Ebrill 2017 yn gymwys, ar yr amod eu bod yn comisiynu ac yn cofrestru ar gyfer ardrethi annomestig

cyn diwedd y cyfnod gwneud cais (31 Gorffennaf 2018). Bydd y grant yn cael ei ddyfarnu pro rata.

- At ddibenion cyfrifo'r grant, cymerir fod gan gynlluniau sydd wedi'u comisiynu wedi'r 1 Ebrill 2017 ddebyd o sero o dan ailwerthusiad 2010.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer elfen rhyddhad 100% o'r cymorth, bydd angen i brosiectau fodloni ein diffiniad o brosiect sy'n berchen i'r gymuned:

*datblygiad ynni yng Nghymru sy'n berchen i fenter gymdeithasol yn gyfan-gwbl, a ble y mae pob ased ac elw wedi'u hymrwymo'n gyfreithiol i gyflawni amcanion cymdeithasol ac/neu amgylcheddol yng Nghymru.*

Bydd angen darparu dogfennau ategol i gynnig tystiolaeth i fodloni'r diffiniad hwn.

## Sut i Wneud Cais

Llenwch y ffurflen gais yn electronig a'i dychwelyd, gyda'r dogfennau ategol, at: energypolicymailbox.llyw.cymru.

## Ffurflen Gais

### 1. Enw'r Prosiect

### 2. Lleoliad y Prosiect

Cyfeiriad:

Cod Post:
Cyfeirnod Grid*:

*Defnyddiwch https://gridreferencefinder.com/ i ddod o hyd i'r cyfeirnod grid

### 3. Enw Cyswllt

Enw:

Sefydliad:

Swydd:

### 4. Cyfeiriad yr Ohebiaeth (os yn wahanol i leoliad y prosiect)

Cyfeiriad:

Cod Post:

### 5. Manylion Cyswllt

Ffôn:

E-bost:

### 6. Statws Busnes

Ticiwch y blwch priodol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unig Fasnachwr | ☐ | Elusen | ☐ |
| Partneriaeth | ☐ | Cwmni dielw | ☐ |
| Cwmni Preifat Cyfyngedig | ☐ | Corff y Sector Cyhoeddus | ☐ |
| Cwmni Priefat Cyfyngedig | ☐ | Arall | ☐ |

Os arall, nodwch beth:

Enwŵ Cwmni ac / neu Rif yr Elusen (os yn gymwys):

## 7. Manylion Ardrethi Annomestig

Mae manylion y rhwymedigaeth ardrethi annomestig i'w gweld ar y datganiad(au) bil(iau) sy'n cael eu hanfon gan yr Awdurdod Lleol. **Rhowch gopïau o ddatganiadau biliau gyda'ch cais.**

Yn y blychau isod, nodwch y rhwymedigaethau ardrethi annomestig **net.** Y rhwymedigaeth net yw'r swm sy'n cael ei dalu i'r Awdurdod Lleol ac sy'n ystyried y didyniadau ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi Trosiannol, Rhyddhad Gorfodol a Rhyddhad Dewisol.

*Prosiectau nad ydynt o dan berchnogaeth y gymuned;* bydd y grant yn seiliedig ar y cynnydd yn y rhwymedigaeth net o'r flwyddyn gyfeirio 2016-17.

- Bydd gan brosiectau sydd â rhwymedigaeth net sero yn 2016-17 uchafswm o £1,000 ar gyfer eu rhwymedigaeth yn 2017-18 a 2018-19. Er enghraifft, bydd prosiect sydd â rhwymedigaeth net o £2,056 yn 2018-19 yn derbyn cymorth o £1,056 (£2,056 - £1,000).

- Bydd prosiectau sydd â rhwymedigaeth bositif yn 2016-17 yn gweld y cynnydd yn eu rhwymedigaeth yn 2017-18 a 2018-19 yn cael ei gapio ar 10%. Er enghraifft, ni fydd prosiect sydd â rhwymedigaeth net o £1,500 yn 2016-17 yn talu mwy na £1,650 (£1,500 + 10%) yn 2017-18 a 2018-19.

*Prosiectau sy'n berchen i'r gymuned;* bydd y grant yn 100% o'r rhwymedigaeth net yn ystod blynyddoedd ariannol 2017/18 a 2018/19.

Gweler atodiad B am enghreifftiau manwl o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo.

| |
|---|
| A. Rhwymedigaeth ardrethi annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17: £ |

| |
|---|
| B. Rhwymedigaeth ardrethi annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18: £ |

| |
|---|
| C. Rhwymedigaeth ardrethi annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18: £ |

Ar gyfer pa flwyddyn(blynyddoedd) mae'r cais yn berthnasol iddo: 2017-18 ☐

2018-19 ☐

## 8. Perchnogaeth Gymunedol

A yw'r prosiect ynni dȒr yn bodloni ein diffiniad o berchnogaeth gymunedol?

*datblygiad ynni yng Nghymru sy'n berchen i fenter gymdeithasol yn gyfan-gwbl, a ble y mae pob ased ac elw wedi'u hymrwymo'n gyfreithiol i gyflawni amcanion cymdeithasol ac/neu amgylcheddol yng Nghymru.*

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, dylid darparu'r dystiolaeth ganlynol:

- Copi o ddogfennau llywodraethu eich grȒp. Er enghraifft, ei gyfansoddiad neu ei Erthyglau Cymdeithasu.
- Copi o gofnodion eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf.
- Cofnodion cyfrif y sefydliadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a chyfriflen banc gyfredol.

## 9. Cymorth Gwladwriaethol

Er mwyn osgoi amharu gormod ar gystadleuaeth, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod terfynau ar y cymorth y caniateir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Eir ati yn y llythyr hwn i nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hynny. Dylech nodi'r gofynion a'r rhwymedigaethau hynny yn ofalus.

O dan Reoliad yr UE 1407/2013 (Rheoliad Cymorth De Minimis) fel a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24 Rhagfyr 2013, y cymorth a ddarperir yw cymorth de minimis. Mae uchafswm o ú200,000* ar bob cymorth de minimis sy'n cael ei ddarparu i unrhyw sefydliad unigol dros gyfnod o dair blynedd ariannol (hy y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flaenorol).

Bydd unrhyw gymorth de minimis a ddarparwyd ichi o dan y Cymorth Ardrethi (busnes) Annomestig ar gyfer cynllun Ynni DȐr yn berthnasol os ydych yn dymuno gwneud cais, neu eich bod wedi gwneud cais, am unrhyw gymorth de minimis arall. Bydd angen i chi ddatgan y swm hwn i unrhyw gorff dyfarnu cymorth arall sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch faint o gymorth De Minimis yr ydych wedi'i dderbyn.

Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd flaenorol, gan y bydd angen i ni gadarnhau nad yw'n cymorth ni, ar ben y cymorth a gafwyd eisoes, yn mynd dros y trothwy o ú200,000 dros y 3 blynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r Cymorth De Minimis yn cynnwys cyllid grant, a hefyd unrhyw gymorth fel gwasanaethau ymgynghori neu gyngor marchnata ac ati sy'n rhad ac am ddim neu â chymhorthdal. Os ydych yn ansicr a yw cymorth blaenorol yn cyfrif fel cymorth de minimis, mae'n well ei nodi.

Darperir Cymorth Ardrethi (Busnes) Annomestig ar gyfer Ynni DȐr fel cymorth de minimis. Os ydych yn credu na fyddwch yn gymwys ar gyfer cymorth de minimis mae'n bosibl y bydd opsiynau eraill ar gael ichi dderbyn cymorth, cysylltwch â ni i drafod eich opsiynau.

Rwy'ncadarnhau fy mod wedi derbyn y cymorth de minimis canlynol yn ystod y 3 blwyddyn ariannol flaenorol (sef y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol):

| **Y corff sy'n darparu'r cymorth/cyllid** | **Gwerth y cymorth £** | **Dyddiad y cymorth** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 10. Datganiad

- Rwyf yn datgan bod y manylion a roddwyd yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw.
- Rwyf wedi fy awdurdodi i lofnodi / cyflwyno y cais hwn.

| Enw: |
|---|

| Sefydliad: |
|---|

| Swydd: |
|---|

| Dyddiad: |
|---|

LLOFNOD ELECTRONIG: Drwy anfon y ffurflen hon mewn ebost at Lywodraeth Cymru (energypolicymailbox@llyw.cymru) rydych yn gwneud y datganiad uchod.

*Mae'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu gennych yn cael ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll fydd yn ei defnyddio i atal twyll ac arian anghyfreithlon ac i gael cadarnhad o bwy ydych. Os ydym yn canfod twyll, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth yn y dyfodol. Mae'n bosib dod o hyd i ragor o fanylion am sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio gennym, a'ch hawliau diogelu data, trwy gysylltu â Data.ProtectionOfficer@gov.wales.*

## Atodiad A: Rhestr wirio

Ticiwch y blychau i gadarnhau eich bod wedi:

- Ateb pob cwestiwn ☐
- Cwblhau adran 9 ar Gymorth Gwladwriaethol. ☐
- Llofnodi'r datganiad ☐
- Darparu copïau o'r biliau ☐
- Darparu tystiolaeth o berchnogaeth gan y gymuned ☐

## Atodiad B: Enghreifftiau o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo

Enghraifft 1: Prosiect o dan Berchnogaeth y Gymuned

**2017-18**

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | £4,450 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £2,221 | (£4,450 * 0.499) |
| Rhyddhad yn ôl disgresiwn | £1,655 | |
| Rhwymedigaeth Net | £556 | (£2,221 - £1,665) |
| ***Grant*** | ***£556*** | ***(100%)*** |

Enghraifft 2: Prosiect nad yw yng Ngofal y Gymuned (Uchafswm o £1,000)

**2016-17**

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | £3,950 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £1,920 | (£3,950 * 0.486) |
| Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach | £1,920 | |
| Rhwymedigaeth Net | sero | |

**2017-18**

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | £10,750 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £5,364 | (£10,750 * 0.499) |
| Cynlluniau Rhyddhad Trosiannol | £3,185 | |
| Cynlluniau Rhyddhad Busnesau Bach | £1,117 | |
| Rhwymedigaeth Net | £1,062 | (£5,364 - £3,185 - £1,117) |
| ***Grant ar gyfer 2017-18*** | ***£62*** | ***(£1,062 - £1,000)*** |

Enghraifft 3: Prosiect nad yw'r Gymuned yn Berchen arno (uchafswm o 10% i'r cynnydd)

**2016-17**

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | £6,700 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £3,256 | (£6,700 * 0.486) |
| Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach | £2,876 | |
| Rhwymedigaeth Net | £380 | (£3,256 - £2,876) |

**2017-18**

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | £11,250 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £5,614 | (£11,250 * 0.499) |
| Rhyddhad Ardrethi Trosiannol | £3,399 | |
| Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach | £702 | |
| Rhwymedigaeth Net | £1,513 | (£5,614 - £3,399 - £702) |
| Cynnydd rhwng 2016-17 a 2017-18 | 298% | (£1,513 o gymharu â £380) |
| Rhwymedigaeth Net 2017-18 gydag uchafswm o | £418 | (£380 + 10%) |
| ***Grant ar gyfer 2017-18*** | ***£1,095*** | ***(£1,513 - £418)*** |